FRIENDS OF THE EARTH NEWSLETTER

Spring 2023 Issue 4



In this Issue

A Day in the Life of a Repair Café Volunteer
Steve Hoyle
Poetry by Sarah Lewis
In Conversation with farmer and woodsman, Stuart Taylor
Plastic Free Ruthin
Richard Barrie
The Unite to Survive Campaign Group
Christine Meirion
Plastic Free Ruthin
Richard Barrie
Projects and Contacts

A Day in the Life of a Repair Café Volunteer

I arrive early as planned to find lots of volunteers already setting up ("as eager as me" I say to myself!). After introductions and a briefing, I take my place with the 'meet and greet' team, responsible for allocating each customer a place in the 'System'. It's, as usual, a busy start to the day, customers already queuing ready for the 10:45am opening.

We help customers complete the appropriate form, get them seated along with their numbered wooden spoon and refreshment is offered whilst they await their turn. No time to take a breath in the first hour which suits me fine – I have to be busy! To keep up team stamina, tea and cakes are in constant supply.

By midday things are *quieter* and I take the opportunity to move to what I love the most - 'General Fixer'! This time, after jewellery links re-attached, garden fork handle secured, sewing machine mechanism freed and lubricated and aid given to the 'woodwork specialist' with two chair repairs, its already 1:30 and time to stop.

In summary what a wonderful monthly meeting with such lovely like-minded folk. It's a win, win, win for me: customers happy with their repaired items (or at very least advice dispensed), fixers *cock-a-hoop* with their latest *fix* triumph and not least, more items kept from landfill, playing our small part in saving the Planet. I arrive home with such a buzz and fall asleep happy in the knowledge of the day's accomplishments!



Mair on PAT testing.



John fixing a family heirloom clock.



Andrew fixing a bureau.

Numenius arquata

Their name recalls the new moon
and the archer's shapely bow.
On supermodel legs they strut on the moor
in high couture, back-lit by lamps of cotton grass.
How long will their rippling song be heard above Hiraethog?
Will St Beuno's ancient promise be fulfilled?

Legend says that, while sailing from the Lleyn Peninsula to Anglesey, a gust of wind took St Beuno's book of sermons and dropped it into the sea. St. Beuno was distraught as he watched years of work disappear beneath the waves. Then a brown bird with a long, down curved bill swooped down and picked the book up and took it to the shore. St Beuno blessed the curlew and decreed that from that time, curlew nests would be difficult to find and should be protected forever.



Freedom

The curlew's song is hers again
when she leaves the purple moor
and glides down to the winter shore.

Her bubbling song is hers again
and not for a speckled mate
or the fox's pouncing gait.

Her rippling song is hers again
and not for the buzzard's shadow
or a lost chick in the meadow.

Her liquid song is hers again
for the freedom of the moon-full sky
and the joy of the turning tide.

In Welsh, curlew is gylfinir. Their numbers have fallen by 90% in the last 20 years. The curlew is predicted to be on the brink of extinction as a viable breeding species in Wales by 2033 and it is now considered to be the most pressing bird conservation priority

The Llantysilio Mountains and Mynydd Hiraethog remain important areas for curlews. There is now a 10 year Wales Action Plan for the Recovery of Curlew with the aim of preventing their extinction. World Curlew Day is 21 April To find out how you can help this iconic bird visit

www.curlewwales.org
www.curlewaction.org

Sarah is passionate about the sea and its creatures. This led her to do a degree in Marine Biology. She has worked for the RSPB monitoring shorebirds and protecting little terns. She says, "birds are part of my life, like breathing is part of my life. I feel improperly dressed without my binoculars around my neck." Now she writes non-fiction and makes driftwood sculptures from her home in Flintshire.
www.shorelark.weebly.com
www.theslowtourist.weebly.com



In Conversation with Farmer and Woodsman Stuart Taylor

Stuart has been planting trees and hedges on his farm near Mold ever since leaving school. Recently he has planted 5300 trees, in line with the Welsh governments desire to achieve 10% tree cover on farms. The editor recently caught up with him between his tree planting to discover more about his passion for trees.

Editor: How much of your land have you put aside for tree planting?

Stuart: The planting I've done since leaving school has now arrived at the point where all the field boundaries are 100% hedge and every corner that could have a few trees, has them. My father and I also planted a one-acre woodland in the nineties. During the Winter of 21/22 I felt I wanted to do more. The idea was to plant up a 9-acre field which was separated from the rest of the land by a dual carriageway. The field is suitable because of its topography—like an upturned bowl which I think will be pleasing when covered in trees.

Editor: What species of trees have you planted?

Stuart: In early December I dug the first hole to plant some self-grown wild cherries. Over the next seven week these were followed by sessile and pendunculate oak, alder, elder, birch, hazel, crab apple, spindle tree and hawthorn. I deliberately used as many flowering trees as possible to help pollinators and provide wild fruit for wildlife. The trees have been protected with a mixture of reused plastic shelters from an established plantation and waxed cardboard and woven cotton shelters to avoid fresh plastic in the countryside.

Editor: Have you noticed any more flora and fauna since you first planted your trees?

Stuart: Yes, the one-acre plot that we planted in the nineties has grown very tall and is the new skyline when viewed form the fields and the local village. Bluebells are starting to appear and there are jays and buzzards.

Editor: I imagine mulching and looking after 5300 trees must take a lot of work.

Stuart. The mulching of the trees is important to reduce competition from grass and preserve moisture during drought. It is proving to be a big undertaking. We are moving the mulch with wheelbarrows loaded from a tractor and trailer in the field. Unfortunately, the trees are too close together for it to be done any other way.

Editor: Despite the hard work, I imagine you must get a lot of satisfaction from this work.

Stuart: Yes, it has trebled the amount of woodland on the farm as well as restoring the area of trees back to what it was 150 years ago, according to the 1871 OS map. I'm also hoping to create two or three ponds to enhance the habitat as well as a couple of rides which will be managed as wildflower meadows.

Editor: I believe that you are also an author.

Stuart: Yes, my book, *From Dawn to Dusk,* was the result of a few years of jotting things down that I'd seen in nature as I worked on the farm. It was self-published, with help in 2016.





The *Unite to Survive* Campaign

This is a UK campaign supported by Greenpeace, CND, Friends of the Earth Cymru, Friends of the Earth UK and Extinction Rebellion amongst others. Its goal is to build a wider national movement that will push for UK government action on the climate and nature emergency. To begin the **Unite to Survive** Campaign, there will be a major demonstration in London on 21st April. We want to demonstrate to politicians that action on climate justice and the environment is a vote winner. We are aiming for 100,000 people in Parliament Square, representing many community groups and NGOs at this crucial time in the climate and ecological crisis. This will show that we are united and that a wide cross-section of we, the voters, care deeply about these issues and our government's failings to address the cluster of crises we all now face. We are hoping to have coach transport from Wrexham. If you can do a single day, great. If you can do the weekend or longer, even better. Working together, we can really make an impact on the Government and other pillars of power, as well as on the general public, who are as yet not sufficiently mobilised on these issues to help a just transition to a net zero world, where habitats and species have enough protection.

If you want to be involved locally or nationally, get in touch with Christine Meirion, Lead for the Campaigning Group Ruthin Friends of the Earth at christineuden@icloud.com 07966540399

PLASTIC FREE RUTHIN SURFERS AGAINST SEWAGE

Plastic Free Ruthin is a small, friendly group with accreditation form Surfers Against Sewage as a Plastic Free Community. Our focus is to reduce single use plastics and have conversations with local businesses and schools. If you'd like to join us you would be most welcome. We meet in Ruthin most Wednesdays at 10am. You don't need any expertise just enthusiasm and be willing to talk to people about the plastics crisis. Get in touch at Plasticfreeruthin@gmail.com or foe.ruthin@gmail.com

Projects and Contacts

Group Secretary	Jean Leith
Terracycle	Mair Davies
Litter Picks	Steven Hoyle
Plastic Free Ruthin	Richard Barrie
FoE Chair	Richard Barrie
Repair Café	Anne Lewis
Climate Emergency	Christine Meirion
Unite to Survive Campaign	Christine Meirion
Resilient Communities	Graham Steel/ Christine Meirion
Youth Group	Janine Cusworth
Newsletter	Diana Sanders
Translation	Sian Gwyn-Ifan

Groups FoE Ruthin works alongside

Drosi Bikes	Beth Ward/Robin Hughes
Y Ty Gwyrdd	Marguerite Lovegrove
Bws Benthyg/Borrow Bus & Resouce	Janine Cusworth/ Jozsef Vass



Common Dolphin © Diana Sanders.

Ruthin Friends of the Earth Group meets on the second Thursday of the month at 7pm to plan our activities. All welcome. For details about this and other group events contact

For those without email call secretary on 0741 998 0286 otherwise contact Ruthin Friends of the Earth | Facebook

CYLCHLYTHYR CYFEILLION Y DDAEAR

Gwanwyn 2023 Rhifyn 4

Cyfeillion y Ddear Rhuthun



Yn y rhifyn hwn

Diwrnod ym mywyd Gwirfoddolwr yn y Caffi Trwsio
Steve Hoyle

Barddoniaeth gan Sarah Lewis

Sgwrs gyda'r ffermwr a'r coedwigwr, Stuart Taylor

Rhuthun Di-blastig Richard Barrie

Grŵp Ymgyrch *Unite to Survive*
Christine Meirion

Prosiectau ac enwau cyswllt

Diwrnod ym Mywyd Gwirfoddolwr yn y Caffi Trwsio

Rwy'n cyrraedd yn gynnar yn ôl y bwriad i ganfod bod llawer o wirfoddolwyr eisoes wedi cyrraed ac yn brysur yn cael trefn ar y lle ("brwdfrydig fel fi" meddyliaf wrthyf fy hun!) Ar ôl cyflwyniadau a'r wybodaeth angenrheidiol, rwy'n ymuno â'r tîm croesawu sy'n gyfrifol am gadw lle yn y 'system' i bob cwsmer. Mae'r diwrnod yn cychwyn yn brysur fel arfer, gyda chwsmeriaid eisoes yn ciwio yn barod i'r caffi agor am 10:45am.

Rydyn ni'n helpu cwsmeriaid i gwblhau'r ffurflen, ac maen nhw'n cael llwy bren gyda rhif ac yn mynd i eistedd i lawr i gael paned ac aros am eu tro. Dim eiliad yn rhydd yn yr awr gyntaf sy'n siwtio fi i'r dim – rwy'n hoffi cadw'n brysur! Mae cyflenwad cyson o baneidiau a chacenni yn help i gadw'r egni i fynd. Erbyn canol dydd mae pethau wedi tawelu, ac rwy'n manteisio ar y cyfle i symud draw at fy hoff swydd, sef *'General Fixer'*! Y tro hwn, ar ôl ailgysylltu dolenni tlysau, rhoi troed fforch arddio nôl yn ei le, cael peiriant gwnio i weithio eto a helpu arbenigwr mewn gwaith coed i drwsio dwy gadair, mae'n 1:30 ac yn amser cau'r caffi.

Dyma ddigwyddiad misol bendigedig yng nghwmni ffrindiau hyfryd sy'n rhannu'r un gweledigaeth. Rydyn ni'n ennill ym mhob ffordd: y cwsmeriaid yn hapus gyda'u heitemau wedi eu trwsio (neu o leiaf ar ôl cael cyngor), y gwirfoddolwyr wrth eu boddau gyda'u holl lwyddiannau, a mwy o eitemau nad ydynt ar eu ffordd i'r domen sbwriel, a ninnau'n chwarae ein rhan fach ni yn yr ymgyrch i achub y planed. Rwy'n cyrraedd adref mewn hwyliau da cyn cwympo i gysgu'n hapus wrth gofio'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni!



Mair yn gwneud profion PAT



John yn trwsio cloc sy'n drysor



Andrew yn trwsio bueau

Numenius arquata

Their name recalls the new moon
and the archer's shapely bow.
On supermodel legs they strut on the moor
in high couture, back-lit by lamps of cotton grass.
How long will their rippling song be heard above Hiraethog?
Will St Beuno's ancient promise be fulfilled?

Yn ôl y chwedleuon, cipiodd y gwynt lyfr pregethau St Beuno a'i ollwng i mewn i'r môr, wrth i'r sant hwylio o Ben Llŷn i Ynys Môn. Torrodd St. Beuno ei galon wrth wylio blynyddoedd o waith yn diflannu o dan y tonnau. Ond yn sydyn dyma aderyn brown â phig hir crwm yn disgyn ac yn cydio yn y llyfr a'i gario i'r traeth. Bendithiodd St Beuno y gylfinir gan ddatgan y byddai ei nythod yn anodd eu canfod a felly y byddent yn ddiogel am byth o'r adeg honno ymlaen.



Freedom

The curlew's song is hers again
when she leaves the purple moor
and glides down to the winter shore.

Her bubbling song is hers again
and not for a speckled mate
or the fox's pouncing gait.

Her rippling song is hers again
and not for the buzzard's shadow
or a lost chick in the meadow.

Her liquid song is hers again
for the freedom of the moon-full sky
and the joy of the turning tide.

Mae niferoedd y gylfinir wedi gostwng 90% yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Rhagwelir y bydd wedi mynd yn bell ar hyd y ffordd i ddifodiant fel rhywogaeth sy'n gallu magu cywion yng Nghymru erbyn 2023, ac erbyn mae'r gylfinir yn cael ei ystyried yn un o'r blaenoriaethau mwyaf brys o ran yr angen i'w ddiogelu.

Mae Mynyddoedd Llantysilio a Mynydd Hiraethog yn dal i fod yn ardaloedd pwysig i'r gylfinir. Bellach mae Cynllun Gweithredu 10 mlynedd ar waith yng Nghymru er mwyn achub y gylfinir rhag diflannu'n lllwyr. Mae 21 Ebrill yn Ddiwrnod Gyfinir y Byd. I ganfod sut y gallwch chi helpu'r aderyn eiconig hwn, ewch i:

ww.curlewwales.org
www.curlewaction.org

Mae Sarah yn teimlo'n angerddol ynghylch y môr a'i greaduriaid. O ganlyniad, fe gwblhaodd radd mewn Bioleg y Môr. Mae wedi gweithio i'r RSPB yn monitro adar y traeth ac yn diogelu môr-wenoliaid bychan. Meddai: "mae adar yn rhan gwbl naturiol o'm bywyd. Dw i ddim yn teimlo mod i wedi gwisgo'n iawn heb fod pâr o *binoculars* o gwmpas fy ngwddw." Mae hi bellach yn ysgrifennu gwaith ffeithiol, ac yn gwneud cerfluniau allan o froc môr yn ei chartref yn Sir y Fflint

www.shorelark.weebly.com
www.theslowtourist.weebly.com



Sgwrs gyda'r ffermwr a'r coedwigwr Stuart Taylor

Mae Stuart wedi bod yn plannu coed a gwrychoedd ar ei fferm ger yr Wyddgrug ers iddo adael yr ysgol. Yn ddiweddar mae wedi plannu 5300 o goed, yn unol ag awydd Llywodraeth Cymru i weld 10% o dir ar ffermydd Cymru yn cael ei orchuddio gan goed. Yn ddiweddar er gwaethaf yr holl brysurdeb hwn, cafodd y golygydd gyfle i gael sgwrs gydag ef er mwyn canfod mwy am ei frwdfrydedd a'i hoffter o goed.
Golygydd: Faint o'ch tir sydd wedi ei neilltuo ar gyfer plannu coed?
Stuart: Oherwydd y gwaith plannu rwyf wedi wneud ers gadael yr ysgol, rwyf bellach wedi cyrraedd y pwynt lle mae holl finiau'r caeau yn 100% gwrychoedd ac mae coed yn tyfu ym mhob cornel lle mae'n bosibl plannu nifer bach ohonynt. Hefyd plannodd fy nhad a fi goetir un erw o faint yn y naw degau. Yn ystod y gaeaf 21/22, roeddwn i'n teimlo mod i eisiau gwneud rhagor. Y syniad oedd plannu coed dros gae 9 erw a oedd wedi ei wahanu oddi wrth weddill y tir gan ffordd ddeuol. Mae'r cae hwn yn addas oherwydd siâp y tir – fel powlen ben i waered, ac rwy'n meddwl y bydd yn lle hardd pan fydd wedi ei orchuddio â choed.
Golygydd: Pa fath o goed ydych chi wedi eu plannu?
Stuart: Ddechrau mis Rhagfyr, mi wnes i balu'r twll cyntaf ar gyfer plannu nifer o goed ceirios gwyllt a oedd wedi tyfu ar eu pen eu hunain. Wedyn dros y saith wythnos nesaf, bues yn plannu coed derw mes di-goes (*sessile*) a mes coesynnog (*pendunculate*), gwernen (*alder*), ysgawen (*elder*), bedw (*birch*), collen (*hazel*), coed afalau surion (*crab apple*), piswydden (*spindle tree)*, a'r ddraenen wen (*hawthorn*). Es i ati'n fwriadol i ddefnyddio cymaint o goed blodeuol â phosibl er mwyn helpu pryfed peillio, a sicrhau bod ffrwythau gwyllt ar gael i fywd gwyllt yr ardal. Mae'r coed wedi cael eu hamddiffyn gan gymysgedd o orchuddion plastig sydd wedi eu hail-ddefnyddio o goetir hŷn, a gorchuddion o gardbord â chwyr arno, a chotwm sydd wedi ei weu, er mwyn osgoi gosod plastig newydd ar y tir yng ngefn gwlad.
Golygydd: Ydych chi wedi sylwi bod mwy o blanhigion ac anifeiliaid ers ichi blannu eich coed gyntaf?
Stuart: Ydw, mae'r coed ar y darn o dir un erw gafodd ei blannu yn y naw degau wedi tyfu'n dal iawn, a'r rhain bellach sy'n ffurfio'r llinell rhwng y tir a'r awyr pan rydyn ni'r edrych draw o'r caeau a'r pentref lleol. Mae clychau'r gog yn dechrau ymddangos, ac mae sgrechod y coed (*jays*) a bwncathod (*buzzards*).

Golygydd: Galla i ddychmygu bod angen lot o domwellt (*mulch*) a'i fod yn llawer o waith gofalu am 5300 o goed.
Stuart. Mae'r tomwellt ar gyfer y coed yn bwysig i atal y glaswellt rhag cystadlu gormod, ac i gadw'r wlybaniaeth yn ystod cyfnodau sych. Rydych chi'n iawn, mae'n llwyth enfawr o waith. Rydyn ni'n symud y tomwellt gan ddefnyddio berfâu sy'n cael eu llwytho o dractor a threlar yn y cae. Yn anffodus, mae'r coed yn rhy agos at ei gilydd i allu wneud hyn mewn unrhyw ffordd arall.
Golygydd: Er gwaethaf yr holl waith caled, gallaf feddwl eich bod yn cael llawer o foddhad o'r gwaith hwn.
Stuart: Ydw, mae maint y coedtir ar y fferm wedi treblu, a hefyd mae'r fan goediog wedi ei hadfer yn ôl i fod fel yr oedd 150 o flynyddoedd yn ôl ar fap OS 1871. Rwy'n gobeithio creu dau neu dri llyn bach hefyd i gyfoethogi'r cynefin, yn ogystal â chwpl o lwybrau a fydd yn cael eu rheoli fel dolydd blodau gwyllt.
Golygydd: Rwy'n credu eich bod hefyd yn awdur.
Stuart: Ydw, roedd fy llyfr, *From Dawn to Dusk,* yn ganlyniad nifer o flynyddoedd o wneudnodiadau am yr hyn roeddwn i'n ei weld ym myd natur wrth imi weithio ar y fferm. Mi gyhoeddais y llyfr fy hunan, gyda chymorth, yn 2016.





Ymgyrch Unite to Survive

Dyma ymgyrch sy'n digwydd ar draws y DU gyfan. Mae'r cael ei chefnogi gan Greenpeace, CND, Cyfeillion y Ddaear Cymru, Cyfeillion y Ddaear y DU, ac Extinction Rebellion ymhlith eraill. Ei nod yw adeiladu mudiad ehangach a fydd yn ymgyrchu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gweithredu ar yr hinsawdd a'r argyfwng natur. I roi cychwyn ar yr ymgyrch ***Unite to Survive,*** bydd gwrthdystiad mawr a phwysig yn cael ei gynnal yn Llundain ar 21 Ebrill. Rydym yn awyddus i ddangos i'r gwleidyddion bod gweithredu ar gyfiawnder hinsawdd a'r amgylchedd yn ennill pleidleisiau. Ein nod yw sicrhau bod 100,000 o bobl yn ymgasglu yn Parliament Square, a'u bod yn cynrychioli llawer o grwpiau cymunedol a mudiadau nid er elw ar yr adeg dyngegfennol hon yn hanes yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Bydd hyn yn dangos ein bod yn unedig a bod croesdoriad eang o bleidleiswyr yn teimlo'n gryf iawn am y materion hyn a methiannau ein llywwodraeth i roi sylw i'r clwstwr o argyfyngau yr ydym i gyd yn eu hwynebu. Rydym yn gobeithio trefnu bws o Wrecsam. Os ydych yn gallu mynd i lawr am un diwrnod, gwych, ond gorau oll os ydych yn gallu mynd am y penwythnos neu hirach. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn ddylanwadu ar y llywodraeth ac eraill sydd mewn pŵer, yn ogystal a'r cyhoedd sydd heb eu sbarduno digon eto i weithredu ar y materion hyn i helpu i sicrhau ein bod yn trosglwyddo'n gyfiawn i fyd sero net, lle bydd cynefinoedd a rhywiogaethau'n cael eu diogelu'n briodo. **Os ydych yn awyddus i gymryd rhan yn lleol neu'n genedlaethol, cysylltwch â Christine Meirion, Arweinydd Grŵp Ymgyrchu Cyfeillion y Ddaear Rhuthun christineuden@icloud.com 07966540399**

PLASTIC FREE RUTHIN
SURFERS AGAINST SEWAGE

Mae **Rhuthun Di-blastig** yn grŵp bach cyfeillgar sydd wedi ei achredu gan Surfers Against Sewage fel Cymuned Ddi-blastig. Ein nod yw lleihau nifer yr eitemau plastig un-tro sy'n cael eu defnyddio, a siarad â busnesau ac ysgolion lleol. Mae croeso ichi ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod yn Rhuthun bron bob dydd Mercher am 10am. Does dim angen ichi fod ag unrhyw arbenigedd, dim ond brwdfrydedd a'r parodrwydd i siarad â phobl am yr argyfwng plastig. I gysylltu â ni e-bostiwch Plasticfreeruthin@gmail.com neu foe.ruthin@gmail.

Prosiectau ac Enwau Cyswllt

Ysgrifennydd y Grŵp Jean Leith
Terracycle Mair Davies
Casglu sbwriel Steven Hoyle
Rhuthun Di-blastig Richard Barrie
Cadeirydd Cyfeillion y Ddaear Richard Barrie
Caffi Trwsio Anne Lewis
Argyfwng Hinsawdd Christine Meirion
Ymgyrch *Unite to Survive* Christine Meirion
Cymunedau Cydnerth Graham Steel/ Christine Meirion
Grŵp Ieuenctid Janine Cusworth
Cylchlythyr Diana Sanders
Cyfieithu Sian Gwyn-Ifan

Mae Cyfeillion y Ddaear yn cydweithio â'r grwpiau hyn:
Drosi Bikes Beth Ward/Robin Hughes
Y Tŷ Gwyrdd Marguerite Lovegrove
Bws Benthyg/Borrow Bus a Resouce Janine Cusworth/ Jozsef Vass


Dolffin Cyffredin © Diana Sanders.

Mae Grŵp Cyfeillion y Ddaear Rhuthun yn cyfarfod ar yr ail ddydd Iau bob mis am 7pm i gynllunio ein gweithgareddau. Croeso i bawb. I gael y manylion am hyn a digwyddiadau eraill y grŵp, cysylltwch â Os nad oes gennych e-bost, mae croeso ichi ffonio'r ysgrifennydd ar 0741 998 0286, neu cewch gysylltu â ni drwy

Ruthin Friends of the Earth | Facebook